# Gair o'r Garn

Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

**Cylchlythyr yr Ofalaeth**

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 51** **Gwanwyn 2020**



**Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd**

# Cyd-ddigwyddiad

Paratoi ar gyfer y Sul oeddwn i. A meddwl am gyfarwyddyd William Williams, Pantycelyn, i'r rhai fyddai'n arwain gwasanaethau'r Sul. Peth pwysig yw meddwl am bwy sy'n canu'r emynau, meddai. Dylai'r rhai sy'n arwain y gwasanaeth 'fod yn gydnabyddus yn gyffredin pa fath yw y bobl sy'n eu canu – pa un ai bod lle i obeithio bod llawer ohonynt yn dduwiol ai peidio; neu os ydynt yn dduwiol, pa un ai rhai amheus, llesg, neu cryfion, ffyddiog ydynt hwy'.

Dylid ystyried a yw'r gynulleidfa'n hwyliog neu'n ofnus, yn fywiog neu'n llesg, angen moli neu angen gweddïo: 'Ac yn ganlynol [dylid] rhoi Hymn i maes ag a fo yn perthyn yn fwyaf addas i'w cyflyrau ...'

A dyma feddwl am 'Pererin wyf ...' – un o emynau enwocaf Williams.

Ymlaen â'r dasg o baratoi, gan gofio geiriau Williams a cheisio ffeindio emynau addas ar gyfer cynulleidfaoedd o faint gwahanol.

Ychydig yn ddiweddarach a hithau'n nesáu at amser cinio dyma holi, 'Be sy i ginio?'

Roeddwn wedi dyfalu mai cawl ydoedd – roedd ei arogl blasus yn llenwi'r tŷ.

'Ti isio gosod y bwrdd i ginio?' meddai llais o'r stafell drws nesa.

'Wrth gwrs,' medde fi.

Rholiau bara ffres, caws a chawl. Beth sy well? A dyma graffu ar y pecyn caws – Pilgrim's Choice. Wel, am gyd-ddigwyddiad. 'Pererin wyf' a dewis caws y pererin. A dyma graffu'r eildro. Ar y pecyn gwelais y geiriau canlynol: 'We're on a mission to fill life with flavour'.

Dewis y pererin yw bod yn rhan o genhadaeth i lenwi bywyd gyda blas. Crynodeb perffaith o amcan Eglwys Iesu Grist yn fyd-eang ac i'n cynulleidfaoedd yn lleol. Yn wir, gellid mynd mor bell â dweud bod y cwmni wedi benthyg nodweddion yr eglwys i'w dibenion eu hunain!

Yn y lle cyntaf gwelwn mai ymdrech ar y cyd yw nod yr eglwys (a'r cwmni caws). Nid unigolion ar wahân i'w gilydd yn meddwl y byddai'n

beth braf pe bai rhywrai, ambell waith, o bryd i'w gilydd yn dewis profi gras Duw yn hytrach na bwyta'r caws. Nod yr eglwys a'r cwmni, nod y gweithwyr, amcan eu bodolaeth yn ôl y pecyn, oedd eu bod gyda'i gilydd yn llenwi bywydau eraill â blas. Rhoi blas ar fywyd oedd eu 'cenhadaeth'.

Dywedodd Iesu Grist wrth ei ddisgyblion un tro mai 'chwi yw halen y ddaear'. Her a galwad ydoedd ar i ni gydweithio i'r un pwrpas ac amcan, sef cyfoethogi a chynnig blas i fywydau pobl eraill. A Duw a ŵyr, mewn byd sydd â chymaint o ddiflastod, nad oes angen tystion i'r 'Tydi' hwnnw 'a roddaist i mi flas ar fyw'.

Cawn ein galw hefyd i rannu yng nghenhadaeth Iesu Grist ei hun. Cawn ein gwahodd bob un i adnabod yr Un ddywedodd amdano'i hun iddo ddod er mwyn i ni gael bywyd yn helaethach (Ioan 10:10). Cawn ein gwahodd i adnabod ac i ddilyn y Bugail da. Ni wahoddodd ni i ddefodau a seremonïau crefyddol di-fudd, ond i berthynas bersonol, i fyw gyda'n Harglwydd Iesu Grist.

Ond, fel caws y pererin, unwaith yr ydym wedi ei brofi cawn ein tynnu i mewn er mwyn cyfoethogi bywydau eraill. Nid ni yw'r bywyd helaethach – Iesu ydyw. Ond nid dim ond mewn meysydd crefyddol mae cylch ein gwasanaeth. Cawn ein galw i roi blas ar fywyd 'y ddaear'. Felly, nid oes unrhyw faes cyfreithlon gan Dduw y mae Cristnogion i'w osgoi neu i ymbellhau oddi wrtho. Beth bynnag yw'n cylch o waith, mae mandad Duw yn mynnu ein hymwneud ag ef. Boed yn addysg, neu'n chwaraeon, darlledu neu wleidyddiaeth. Boed mewn gofal, mewn meddygaeth, mewn ymchwil, mewn arwain eglwysi, mewn gweithio a gwarchod y tir, ar gynhyrchu bwyd, neu lenyddiaeth neu gerddoriaeth neu ... Wedi'r cyfan, deiliaid ydym o deyrnas fyd-eang, ac arglwydd y deyrnas honno yw'r Arglwydd Iesu Grist ei hun.

Wrth droi'n golygon at y Pasg, gadewch i ni geisio a phrofi mor dda yw'r Arglwydd. Rhoddodd ei hun drosom, ac mae'n parhau i gynnig ei hun i fyw ynom a thrwom. A gadewch i ninnau sy'n arddel ei enw ymrwymo i'w geisio fel y medrwn, ar ei ran, fod yn halen, sy'n cyfoethogi bywyd ardal a bro, ein diwylliant a'n gwaith.

*Watcyn James*

# Tudalen y Plant

Ar Sul y Blodau, y Sul cyn y Pasg, rydyn ni'n cofio am daith arbennig wnaeth yr Iesu, a hynny ar gefn asyn, i Jerwsalem. Roedd tyrfa fawr o bobl yn ei groesawu, gan roi eu dillad ar y ffordd o'i flaen, chwifio dail palmwydd a gweiddi, 'Hosanna, mae'r brenin yn dod!'



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H | W | C | D | R | T | M | N |
| O | A | U | S | E | R | E | U |
| S | P | S | O | Y | L | T | A |
| A | L | E | M | I | B | C | I |
| N | U | I | E | T | R | A | T |
| N | O | D | L | M | N | H | O |
| A | S | Y | N | D | F | G | C |
| O | P | N | I | N | E | R | B |

Dewch o hyd i'r geiriau o hanes Iesu'n marchogaeth i mewn i Jerwsalem:

Iesu — Asyn

Deilen — Cotiau

Hosanna — Brenin

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615gw
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

WEDI'U CANSLO

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 10 Ebrill | Oedfa'r Groglith yng Nghapel Seion dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch |
| 12 Ebrill | Oedfa Basg yr Ofalaeth yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch Casgliad at Uned Cemotherapi Bronglais |
| 3 Mai | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion yng Nghapel y Garn am 10 a 5.30 o'r gloch |
| 31 Mai | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel Rehoboth, dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch Gwneir casgliad tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais |

Mae ysgolion Sul yn cwrdd
yng Nghapel Seion,
yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor,
ac yng Nghapel y Garn, Bow Street.
Croeso cynnes i blant o bob oed –
holwch y Gweinidog am fanylion.

## Gweithgareddau Capel y Garn

**Ni fydd y gweithgareddau a'r gwasanaethau arferol yn cael eu cynnal am y tro.**
**Am wybodaeth neu gymorth pellach, ewch i'n gwefan (www.capelygarn.org) neu dilynwch ni ar Twitter @capelygarn.**




Nos Wener, 17 Ionawr, roedd festri'r Garn yn llawn ar gyfer cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol. Ein gŵr gwadd y tro hwn oedd ein Gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James, a thestun ei sgwrs oedd John Davies, Tahiti. Ym mis Mai 1800, mentrodd John Davies, a hanai o Lanfihangel-yng-Ngwynfa, Sir Drefaldwyn, i Ynysoedd Môr y De, a threuliodd dros hanner can mlynedd yn genhadwr ar Ynys Tahiti. Aeth ati i ddysgu iaith brodorion yr ynys a llunio gramadeg a geiriadur o'r iaith, yn ogystal â chyfieithu rhannau helaeth o'r Testament Newydd a'r Salmau. Llywyddwyd y noson gan Gweneira Wyn Williams a diolchwyd i'r siaradwr am noson ddifyr oedd yn rhoi braslun cyfoethog a dadlennol o fywyd gŵr didwyll a diymhongar iawn gan yr Athro Gruffydd Aled Williams.



Bore Sul, 26 Ionawr, daeth rhai o aelodau grŵp Aberystwyth o’r elusen Beiciau Gwaed Cymru i Gapel y Garn i dderbyn rhodd gan gapeli’r ofalaeth, a chyflwynodd Delyth Davies, cadeirydd yr ofalaeth, siec am £680 i Mathew Leeman, cynrychiolydd yr elusen.

Wrth ddiolch am y rhodd esboniodd Mathew waith Beiciau Gwaed Cymru sy’n cynnwys cludo samplau gwaed, llaeth babi, meddyginiaethau neu ddogfennau hanfodol rhwng gwahanol ysbytai. Efallai nad ydyn ni’n gweld y beiciau’n aml ar y ffordd gan mai yn ystod y nos ac ar y penwythnos y byddan nhw’n gweithio fel arfer, gan arbed arian sylweddol i’r Gwasanaeth Iechyd.

Rhoddodd fraslun byr o waith y gwirfoddolwyr, sy’n cynnwys sawl rôl wahanol – trefnu rota’r beicwyr, codi arian a chyhoeddusrwydd, yn ogystal â reidio’r beiciau hollbwysig.
Os hoffech chi eu cefnogi, ewch i’w gwefan:
www.bloodbikes.wales neu ymunwch â’u grŵp Facebook:
Blood Bikes Wales, Aberystwyth.

## Dathlu cyfraniad oes y Parch Elwyn Pryse

Bore Sul, 8 Mawrth, braint oedd croesawu'r Parch Elwyn Pryse i bulpud Capel y Garn i arwain yr oedfa. Roedd hwn hefyd yn gyfle i aelodau eglwysi'r Garn a Madog i gydnabod ei gyfraniad amhrisiadwy i bregethiad y Gair mewn nifer o froydd ledled Cymru am gyfnod o dros 70 mlynedd.

Addas iawn oedd ei ddewis o emynau gan rai oedd â chysylltiad â'r fro, gan gynnwys emyn Vernon Jones, 'O Arglwydd y gwanwyn'. Testun ei bregeth oedd Dameg yr Heuwr, o Efengyl Luc, a chyfunodd hanes y gwaith arloesol a wnaed gan Thomas Johnes yn yr Hafod a chan yr Athro Stapleton a'i dîm ym Mhwllpeiran, Cwmystwyth, yn gwella ansawdd tir 'y bryniau' â neges y ddameg oesol hon. Pwysleisiodd fod yr Heuwr a'r had yn aros yn gyson, ond mai amrywiol ydoedd ansawdd y tir sy'n derbyn yr had – neges berthnasol i ni heddiw sy'n ein hatgoffa bod neges yr Efengyl i bawb ond mai ein cyfrifoldeb ni yw'r ffordd rydyn ni'n ymateb iddi.



Ar ddiwedd yr oedfa, darllenodd Vernon Jones gerdd o ddiolch i'r Parch Elwyn Pryse am ei wasanaeth, a chyflwynodd Alan Wynne Jones lun wedi'i fframio iddo ar ran Eglwys y Garn.

Yn dilyn paned sydyn ar ddiwedd yr oedfa, aeth nifer dda o'r gynulleidfa – o Gapel y Garn a Madog – draw i gymdeithasu dros ginio yng Nghlwb Golff y Borth. Cafwyd gair pellach o gyfarchiad i'r Parch Elwyn Pryse gan yr Arglwydd Elystan-Morgan, a fynegodd werthfawrogiad o'i gyfraniad unigryw. Dymunwn bob bendith iddo yn y dyfodol, ac edrychwn ymlaen at gael rhagor o'i gwmni'n addoli gyda ni yn y Garn o Sul i Sul.





## Y Golygydd yn holi'r Parch Elwyn Pryse

**Ymhle y bu dechrau'r daith?**

Cefais fy ngeni mewn tŷ o'r enw Brynawel, Ysbyty Ystwyth, yn fab i Mary ac Elias Pryse, a fu'n gweithio fel glöwr i lawr ym Mhwll Glo'r Maerdy. Ar ôl colli fy rhieni pan oeddwn yn dal yn fachgen ysgol, symudais i fyw at fy chwaer, Bertha, ym Mhwllpeiran, Cwmystwyth. Es i'r ysgol gynradd yn Ysbyty Ystwyth, ac yna ymlaen i Ysgol Tregaron.

**Beth oedd y dylanwadau cynharaf arnoch?**

Dylanwad fy rhieni, wrth gwrs, y capel ac ardal ddiwylliedig, grefyddol, Gymraeg y 'Bryniau'. Roeddwn yn mwynhau'r ysgol, yn enwedig yr ochr gymdeithasol, ac roedd y Band of Hope hefyd yn bwysig iawn i mi. Dechreuais ymddiddori mewn adrodd ac roeddwn wrth fy modd gydag eisteddfodau a dramâu.

**Beth a'ch ysbrydolodd i fynd i'r weinidogaeth a phryd dechreuoch chi bregethu?**

Roedd y cartref a'r ardal yn naturiol grefyddol, ac fe gefais anogaeth daer gan fy mhrifathro yn Ysgol Tregaron, y Prifardd D. Lloyd Jenkins, dyn arbennig iawn, y mae gennyf barch mawr tuag ato. Rhyw 'lef ddistaw fain' oedd yr alwad mewn gwirionedd, a dechreuais bregethu yn ddyn ifanc, 17 oed, yn y capel yng Nghwmystwyth yn 1948. O fewn y teulu – o'r ddwy ochr, gallaf olrhain tua deugain o aelodau sydd wedi cael eu hordeinio, yn cynnwys un archesgob!

**Sut aethoch chi ati i baratoi i fynd i'r weinidogaeth?**

Yn 1949, fe es i'r coleg yn Nhrefeca i ddysgu Groeg, ac yna ymlaen i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Y pryd hynny, roedd yna 32 ohonom yn y coleg yn paratoi i fynd i'r weinidogaeth, a bu cymdeithas y 'bechgyn' yno yn werthfawr iawn i mi.

**Soniwch ychydig am yr ardaloedd y buoch yn gweinidogaethu ynddynt.**

Ym mis Gorffennaf 1954, dechreuais ar fy ngwaith fel gweinidog yn ardal Rhosllannerchrugog – ar ddwy eglwys yn unig i ddechrau, ond ychwanegwyd atynt yn ystod fy amser yno.

Ym mis Awst 1954, fe briodais â Tegwen (Ellis), o Aberystwyth, a fu'n gefn amhrisiadwy i mi drwy gydol fy ngweinidogaeth, a'm hordeinio yng Nghaerfyrddin ym mis Hydref 1954. Bryd hynny, roedd 13 ohonom yn weinidogion yng nghylch y Rhos, yn eu plith y Parchedigion John Roberts, James Humphreys, Lewis Valentine a John Evans, Ponciau – a bu'r olaf yn arbennig o ffeind wrthyf.

Ond bachgen y wlad oeddwn i, ac felly symudais yn 1958 i Lanrhaeadr-ym-Mochnant, ac yna yn 1964, i Lanymddyfri. Treuliais ddegawd hapus yno, a dyna lle y magwyd Maldwyn, ein mab, cyn inni dychwelyd i Geredigion i ofalaeth oedd yn cynnwys eglwysi'r Borth, Dôl-y-bont, Ffwrnais a Thaliesin. Cyfunwyd yr ofalaeth â Gofalaeth y Garn yn 1982, ac yno y bûm hyd nes imi ymddeol yn 1992.

**Beth oedd yn rhoi'r mwyaf o fwynhad i chi yn eich gweinidogaeth? Oes yna unrhyw uchafbwyntiau neu brofiadau arbennig yn aros yn y cof?**
Roeddwn bob amser yn credu ym mhwysigrwydd pregethu'r Gair, bugeilio'r gynulleidfa'n ofalus, a bûm yn gweithio gyda'r bobl ifanc drwy gydol fy ngweinidogaeth.

Un o'r profiadau mawr oedd yr her i adnewyddu Capel y Garn, ar gost o £130,000 yn 1984 – a'r holl weithgarwch a fu ynghlwm â'r gwaith o godi'r arian i gwblhau'r prosiect uchelgeisiol hwnnw.


**Yng nghanol eich holl brysureb, sut oeddech chi'n ymlacio?**
Roedd gennyf ddiddordeb mawr mewn garddio, gwenyna, adrodd – a chymdeithasu.

**Sut ydych chi'n gweld sefyllfa crefydd a Christnogaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, a beth am y dyfodol?**
Cofiwn am addewid Crist: 'ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys a phyrth uffern nis gorchfygant hi'. Mae'r Eglwys wedi para am ddwy fil o flynyddoedd, drwy gyfnodau o lanw a thrai – ac fe ddaw'r llanw eto.

**Llongyfarchiadau calonnog a diolch i chi am eich gweledigaeth a'ch ymroddiad i bregethu'r Gair ar hyd y blynyddoedd, a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.**

**Prysurdeb yng Nghapel Seion**

Dydd Sul, 1 Mawrth, dathlwyd Gŵyl Dewi Sant yn yr ysgol Sul gydag amrywiol weithgareddau ar ôl paned, pice bach a bara brith wedi eu paratoi gan Bethan Owens a'r teulu. Dewisodd Olwen ac Eleri dair cân i'w cydganu, cafwyd hanes Dewi a'i waith gan John Gwynn a bwrdd arddangos ac arno luniau yn nodi ei daith. Paratowyd cwis gan Eirlys Jones a gêm fwrdd Dewi i'r plant bach gan Eirlys Williams. Tîm arbennig iawn yn helpu i greu dathliad cofiadwy.




Dydd Gweddi'r Byd, 6 Mawrth, daeth nifer dda ynghyd am baned a theisennau traddodiadol o Zimbabwe. Fel arfer, Olwen a Magdalen oedd y cogyddion. Cafwyd tipyn o drafod a hwyl yn blasu'r gwahanol ryseitiau – dolch i'r ddwy. Thema'r oedfa eleni oedd 'Cod! Cymer dy Fatras a Cherdda', a'r myfyrdod yn pwysleisio tair berf weithredol: cod, cymer, a cherdda. Diolch i Eirlys Williams, fel bob amser, am greu arddangosfa chwaethus, liwgar o'r deunyddiau a ddaeth i law. Esboniwyd arwyddocâd y llun ar y clawr, y faner, y tair cannwyll a'r llwythau o fewn y wlad.

Ar ddiwedd wythnos brysur yng Nghapel Seion cawsom gyfle i fwynhau cwmni'n gilydd, yn sgwrsio a chloncio dros baned. Diolch i Barry a Glesni am eu paratoadau ar ein cyfer.

Awr yn hwyrach na'r arfer (11:00), dechreuwyd ar oedfa deuluol hwyliog, a chynulleidfa deilwng yn cymryd rhan ac yn mwynhau asbri'r plant. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein gweinidog gyda chymorth Angharad Jones, Eleri Wyn Jones, Glesni Powell a Magdalen Davies. Cafwyd egwyl i feddwl am thema'r Dydd Gweddi Byd-eang a baratowyd gan chwiorydd Zimbabwe. Ac roedd yr arddangosfa hardd a baratowyd gan Eirlys Williams yn daearu, i bawb oedd yn bresennol, ein gweddïau dros wlad mor llawn o drafferthion.

Yna cawsom gyfle i adrodd hanes Iesu'n cael ei groesawu gan y dyrfa ar Sul y Blodau a gorffen yr hanes (am y tro!) wrth fwrdd y Swper Olaf. Cafodd y gynulleidfa gyfan eu rhan yn nrama'r wythnos fawr – gydag Annas a Chaiaffas yn gwgu ar ddyfodiad y Crist!

Ac yna i gloi, cyn cydgymuno, cawsom y fraint o dderbyn Bethan Evans a Tom Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn, ynghyd â'u plant, Meia, Elsa ac Emrys, yn aelodau i'r Eglwys yng Nghapel Seion. Roedd yn achos llawenydd mawr i ni fedru croesawu teulu ifanc i'n plith. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn hael ei fendith ar ein teuluoedd ac ar ein cynulleidfa.

Diolch i Ina Tudno Williams am baratoi'r gwasanaeth a threfnu bod pawb wedi cael bod yn rhan o'r oedfa.



Yn ystod oedfa bore'r Nadolig yn y Garn, cyflwynodd y Gweinidog dystysgrif arbennig, ar ran Cymdeithasfa'r De, i'r Arglwydd Elystan-Morgan i nodi dros 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenor yng Nghapel y Garn. Fe'i hordeiniwyd yn flaenor yn 1971, ac mae wedi rhoi gwasanaeth amhrisiadwy i'r Garn a thu hwnt am gyfnod o bron i hanner can mlynedd.

## Rota Paned Capel y Garn

Ar hyn o bryd, mae rhai bylchau yn y rhestr o rai sy'n paratoi'r baned yn dilyn y gwasanaeth. Os ydych chi'n fodlon ymuno â'r rota, cysylltwch â Meinir Roberts, os gwelwch yn dda.

Diolch i bawb sydd eisoes yn helpu'n gyson – mae'n ffordd werthfawr iawn o gyfrannu eich gwasanaeth.

## Gwreiddiau

Mae’r grŵp Gwreiddiau wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd yn festri’r Garn ar fore Iau am 10.15 o’r gloch, ac mae’r aelodau’n cael blas ar drin a thrafod llythyr Paul at y Philipiaid, dan arweiniad doeth a gwybodus ein Gweinidog.

Bore Iau, 5 Mawrth, cafwyd sesiwn gwahanol i’r arfer pan fu Mrs Ina Tudno Williams yn sôn am ei gwaith fel Ynad Heddwch, a hynny am gyfnod o dros 40 mlynedd. Rhoddodd Ina amlinelliad o’r ffordd y mae’r gyfundren gyfreithiol yn gweithio, cyn cyflwyno achos nodweddiadol fyddai’n dod o flaen Llys yr Ynadon. Gwelwyd bod yn rhaid ystyried llawer iawn o ffactorau, ac nad oedd yna ateb na datrysiad syml, yn enwedig wrth ymdrin â phlant a phobl ifanc. Gwerthfawrogwyd cyfraniad Ina yn fawr – a diolchwyd iddi am ei chyfraniad yn sicrhau bod yr egwyddorion gorau ar waith o fewn ein system gyfreithiol am gynifer o flynyddoedd.



# Dydd Gweddi'r Byd

Daeth chwiorydd Capel Noddfa, Eglwysi Llanfihangel a Llangorwen, a Chapel y Garn at ei gilydd yn y Garn brynhawn Gwener, Mawrth 6ed i ddathlu Dydd Gweddi'r Byd. Merched Zimbabwe oedd wedi bod yn gyfrifol am lunio'r rhaglen eleni, dan y teitl "Cod! Cymer dy Fatras a Cherdda", ac roedd eu geiriau, a ddarllenwyd yn yr Oedfa gan aelodau ein heglwysi ni, yn adlewyrchu eu dewrder, eu penderfyniad a'u hymroddiad nhw yn wyneb adfyd a chaledi. Braint oedd cael y cip byr ond diffuant yma ar fywyd mewn man arall, gwahanol, a gwybod bod Cristnogion drwy'r byd yn clywed ac yn meddwl am yr un geiriau ar yr un diwrnod.

Paratowyd a gweinyddwyd te ar y diwedd gan chwiorydd Capel Noddfa.



**Capel y Garn – Ebrill**

***Swyddog y mis: Llinos Dafis***

*I gyfarch wrth y drysau:* *Alan Wynne Jones*
*Ann Jones*

WEDI'U CANSLO

1 Cymdeithas Chwiorydd y Garn
Cinio yng Nghrefftau Pennau am 12.30 o'r gloch

5 **Sul y Blodau**
Oedfa yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

10 Oedfa ar fore'r Groglith yng Nghapel Seion
am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

12 **Sul y Pasg**
Oedfa'r ofalaeth yn y Garn am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog
Casgliad tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais

19 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog

23 Pwyllgor Swyddogion y Garn
yn festri'r Garn am 2 o'r gloch

26 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Adrian Williams

## Capel y Garn – Mai

*Blaenor y mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Gruffydd Aled Williams*
*Eddie T Jenkins*

**WEDI'U CANSLO**

3 Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
yng Nghapel y Garn
Gwasanaeth y plant am 10 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch
dan arweiniad Mr Geraint Roberts, Prestatyn

10 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog

17 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog
Oedfa anffurfiol ym Methlehem, Llandre, am 5 o'r gloch

24 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch John Gwilym Jones

31 Sul y Pentecost
Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
yng Nghapel Rehoboth, Taliesin
Casgliad tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais

## Capel y Garn – Mehefin

**DS Y trefniadau hyn i'w cadarnhau**

*Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams*

*I gyfarch wrth y drysau: Elizabeth Jones*
*Marian B Hughes*

7 Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa

14 Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

21 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog:
am 10 o'r gloch

28 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Ifan Roberts

Y Parch Elwyn Pryse
(ar ei 'ymddeoliad' o'r pulpud,
Mawrth 2020)

Diwylliant hen y bryniau
Ledaenaist gyda'r Gair
I'th braidd drwy rin Efengyl
Gwyrthiol blentyn Mair.

Yn heulwen ein llawenydd
A thristwch awel groes
Ar allor ac ar aelwyd
Gweinyddaist drwy dy oes.

*Vernon Jones*

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Llinos Dafis, Llandre, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod yn festri Rehoboth brynhawn Mawrth, 10 Rhagfyr. 'Menywod yn fy mywyd' oedd testun ei sgwrs, a soniodd am rai o'r menywod o fewn ei theulu a'r gymdeithas leol a ddylanwadodd arni pan oedd yn ifanc. Hefyd soniodd am fenywod mewn hanes, mewn chwedlau, ac yn y Beibl, a'r cyfan yn hanesion diddorol am fywyd y merched hynny. Diolchwyd i Llinos am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd te, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

Estynnodd Eiriona Metcalfe groeso i bawb i'r cyfarfod brynhawn Mawrth, 14 Ionawr. Elisabeth Wyn, Penrhyn-coch, oedd y gwestai am y prynhawn, a theitl ei sgwrs oedd 'Blwch Atgofion'. I gychwyn, dangosodd flwch pren a wnaed gan ei thad pan symudodd hi i Benrhyn-coch yn 1985 ac yntau wedi cerfio llythrennau cyntaf ei henw a'r dyddiad ar gaead y blwch. Oddi mewn iddo, ac ar y bwrdd o'i blaen, roedd llawer o eitemau a drysorwyd gan Elisabeth o ddyddiau ei phlentyndod ymlaen, gyda hanesyn diddorol am bob un. Wrth ddangos yr eitemau, cawsom rai hanesion am ei chyfnod yn Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy, yr Ysgol Sul, Ysgol Dr Williams, Dolgellau, a pan fu'n gweithio yn Swyddfa'r Urdd a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg yn Aberystwyth. Roedd sawl enghraifft o lwyau caru a gwaith pren a wnaed gan ei thad ar y bwrdd hefyd, ynghyd â thrysorau a ddaeth Elisabeth yn ôl gyda hi i'w hatgoffa o'r gwledydd tramor y bu'n ymweld â hwy dros y blynyddoedd. I orffen, dangosodd nifer fawr o eitemau gwaith llaw a wnaed ganddi hi, yn cynnwys gwaith arlunio a gwnïo o bob math. Diolchwyd iddi am brynhawn diddorol dros ben, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Bethan Davies a Carys Briddon.

Cyfarfu'r Chwiorydd brynhawn Mawrth, 11 Chwefror, ac estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, Richard Huws, Bont-goch. Er mai brodor o sir Gaerfyrddin yw Richard, treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yng Ngheredigion. Daeth i'r Coleg Llyfrgellwyr yn Aberystwyth yn 1969, ac yna bu'n gweithio yn y Llyfrgell

Genedlaethol am bron i ddeugain mlynedd, cyn ymddeol o'i swydd fel Pennaeth y Gwasanaethau Darllen. Bu'n byw yn Bont-goch ers 2002, ac mae wedi cyhoeddi sawl cyfrol ar bynciau amrywiol megis hanes lleol a chwaraeon. Teitl ei sgwrs oedd 'Tai a Phobl Elerch', a thrwy gyfrwng lluniau ar sgrin cawsom weld a chlywed hanes diddorol nifer o dai a ffermydd yr ardal, yn ogystal â gweld lluniau nifer o bobl a fu'n byw yn y pentref, hwythau hefyd wedi cyfrannu i hanes diddorol y pentref yn y dyddiau a fu. Diolchwyd iddo am sgwrs ddifyr iawn, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Mona Rowlands a Meinir Fleming.

*  *  *

## Cymdeithas Lenyddol y Garn



Rhiain Bebb, a fu'n diddori Cymdeithas Lenyddol y Garn ym mis Chwefror, gyda'i thelyn deires a'r acordion

# Dathlu Pedwar Canmlwyddiant Beibl 1620

Mae hon yn flwyddyn bwysig yn hanes y Beibl Cymraeg. Yn 1620 y cyhoeddwyd y fersiwn y mae'r hynaf ohonom wedi ein codi yn ei sŵn. O'r fersiwn hwn y dysgasom ein hadnodau pan oedd hi'n arfer inni eu hadrodd yn yr oedfa ar fore Sul, a'i gyfieithiadau o Weddi'r Arglwydd ac o'r drydedd Salm ar hugain yw'r rhai y daliwn fel arfer i'w defnyddio yn ein gwasanaethau. Er inni gael cyfieithiad newydd sbon yn 1988, *Y Beibl Cymraeg Newydd,* mae'n well gan lawer yn ein plith droi o hyd at ymadroddion cyfarwydd yr 'Hen Feibl', fel y'i gelwir yn aml.

Ond beth yn union yw tarddiad Beibl 1620? Rydym wedi tueddu i'w alw'n 'Feibl Willliam Morgan', ond, a bod yn fanwl, nid dyna'n union ydyw. Beibl 1588 yw Beibl William Morgan. Y fersiwn hwn wedi'i gywiro a'i ddiwygio gan ddau gyfieithydd a oedd â chysylltiadau agos â William Morgan ei hun yw'r hyn a gawn ym Meibl 1620. Y ddau hyn oedd yr Esgob Richard Parry, Llanelwy, a'r Dr John Davies, Rheithor Mallwyd, yr oedd eu gwragedd yn chwiorydd ac yn wyresau i'r 'Barwn' Lewis Owen, erlidiwr y Gwylliaid Cochion. Mae Gwynn ap Gwilym yn ei nofel *Sgythia* yn portreadu ei arwr John Davies fel un na chafodd y clod haeddiannol am y gwaith o ddiwygio Beibl William Morgan, a darlunia'r Esgob Parry yn un a fynnodd dderbyn y clod i gyd am y gwaith. Roedd Dr Isaac Thomas, ein prif awdurdod ar y cyfieithiadau Cymraeg, yn fwy gochelgar yn ei ddyfarniad ar y mater, gan awgrymu bod y ddau wedi cyfrannu'n sylweddol ato.

Gwyddom ei bod yn fwriad gan yr Esgob Willliam Morgan ei hun i gyflawni'r gwaith o ddiwygio cyfieithiad 1588 a mabwysiadodd John Davies yn gynorthwywr iddo yn y gwaith. Gwelir ôl y diwygio hwn yn yr 'Epistolau ac Efengylau' ar gyfer gwasanaeth y cymun mewn fersiwn diwygiedig o'r Llyfr Gweddi Gyffredin a ymddangosodd yn 1599. Sonnir hefyd am fersiwn 'coll' a wnaethpwyd ond a gollwyd gan y cyhoeddwr yn yr anhrefn adeg y pla mawr yn Llundain yn 1603. Bu'r Esgob Morgan farw y flwyddyn ddilynol, ond aeth y gwaith o ddiwygio'i Feibl ymlaen. Cyhoeddwyd *The Authorized Version* Saesneg yn 1611, a bu'r cyfieithiad hwn yn sbardun ac yn ddylanwad pwysig ar y fersiwn Cymraeg a gyhoeddwyd yn 1620. Fel y dywedodd Parry ei hun yn ei Ragair iddo: hyn a'i symbylodd i 'ymgymryd â gwneud i'r fersiwn Cymraeg o'r Beibl … yr hyn sydd wedi ei wneud mor llwyddiannus i'r fersiwn Saesneg'. 'Y mae'r cwbl, bron, o'r diwygiadau ar Fersiwn Morgan a welir yn Fersiwn Cymraeg 1620 i'w holrhain i Fersiwn Saesneg 1611,' meddai

Isaac Thomas; eithr ychwanegodd, ond nid 'yn anfeirniadol y defnyddiwyd y fersiwn hwnnw gan Parry a Davies'.

Pa newidiadau amlwg a wnaed i Feibl 1588? Un nodwedd amlwg o'r un newydd yw bod teitlau'r rhan fwyaf o'r llyfrau yn y Testament Newydd wedi eu newid a'u dwyn i gydymffurfio â geiriad teitlau fersiwn Saesneg 'Awdurdodedig' 1611. Ond ar y cyfan nid yw'r gwahaniaethau rhwng y ddau fersiwn yn rhai mawr iawn. Sylwn yma ar lond dwrn ohonynt:

Salm 1.4: 'Nid felly y bydd yr annuwiol, onid fel mân us yr hwn a chwâl y gwynt ymaith oddi ar wyneb y ddaear' (1588); 'Nid felly y bydd yr annuwiol; ond fel mân us yr hwn a chwâl y gwynt ymaith' (1620).

Salm 2.2: 'Y mae brenhinoedd y ddaear yn codi i fyny, a'r penaethiaid yn ymgynghori ynghyd' (1588); 'Y mae brenhinoedd y ddaear yn ymosod, a'r penaethiaid yn ymgynghori ynghyd' (1620).

Micha 4.3: 'a thorant eu cleddyfau yn geibiau, ai gwaiw-ffyn yn bladuriau, ac ni chyfyd cenhedlaeth gleddyf yn erbyn cenhedlaeth, ac ni ddyscant ryfela mwyach' (1588);

'a thorrant eu cleddyfau yn sychau, a'i gwayw-ffyn yn bladuriau, ac ni chyfyd cenhedl gleddyf yn erbyn cenhedl, ac ni ddyscant ryfel mwyach' (1620).

Mathew 11.29: 'Cymerwch fy iau arnoch, a dyscwch gennif, am fy mod yn fwyn, ac yn ostyngedic o galon' (1588);

'Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon' (1620).

Bu'r diwygiad hwn o Feibl William Morgan yn gyfrwng i oleuo ac i'n hysbrydoli ni'r Cymry am bedwar cant o flynyddoedd. Ef a osododd seiliau'r holl fenter o gyfieithu'r Beibl cyfan i'r Gymraeg ac a fynnodd hefyd fod gwelliannau yn cael eu gwneud iddo er mwyn sicrhau'r gorau i'w genedl.

> Canmolwn ef am ei ddygnwch, ei ddewrder a'i sancteiddrwydd
> Ac am ei gymorth i gadw'r genedl a'r iaith lenyddol yn fyw,
> Gan roddi arni yr urddas ac iddi'r anrhydedd uchaf
> Wrth ei throi yn un o dafodieithoedd Datguddiad Duw.
> (Gwenallt)

*John Tudno Williams*




Grŵp Help Llaw y Garn yn cyflwyno nwyddau i'r Banc Bwyd lleol – diolch i bawb am eu cyfraniadau

## Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: Delyth Davies, Pen-llwyn
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **12 Mehefin** i'r golygydd:
Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662
marian_hughes@btinternet.com